

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 7fed Gorffennaf 2026

Croeso a Gweddi - Rhoddwyd Croeso gan y Cadeirydd, Gareth Hughes a gair o weddi gan Idris Thomas

Presennol

Y Cadeirydd Gareth Hughes ynghyd a'r Cynghorwyr, Elwyn Jones, Jane Pierce, Elen George, Sasha Williams, Idris Thomas a Berwyn Parry Jones.

Ymddiheuriadau

Lowri James, Rhian Evans-Hill, Emma Chappell a Gareth Griffiths

Croesawyd Siôn Bryn Roberts o Adran Ieuenctid Cyngor Gwynedd.

Datgan Buddiant

Dim

Adroddiad ar Glybiau Ieuenctid

Pleser oedd croesawu Bryn atom unwaith eto i roi adroddiad ar ddatblygiadau o'r flwyddyn a aeth heibio ar Glybiau Ieuenctid. Ar y cyfan, mae yn bleser gan y Cyngor Cymuned ariannu'r 3 clwb ieuenctid, ac wedi cytuno yn y gyllideb i wneud hynny eto eleni.

Deiniolen - Nodwyd fod 264 o fynychiad yn y clwb hynny ar gyfartaledd o 12 yr wythnos. Mae 20 wedi cofrestru i fynychu'r clwb. Cafwyd criw da yn Neiniolen, a heini yno yn rheolaidd bob wythnos. Maent eisoes wedi trafod rhai tripiâu ar gyfer blwyddyn 26/27. Bethan a Dion oedd yn cynnal y clwb yn wythnosol, er mae Dion wedi datgan nad yw am barhau yn 26/27. Diolch i'r ddau am eu Gwaith gyda'r criw ifanc yn ystod y flwyddyn.

Bethel - Nodwyd fod 153 o fynychiad i'r clwb gyda 28 ar y gofrestr. Nododd Bryn fod ychydig o drafferth wedi bod gyda rhai o Flwyddyn 8 yn ystod y tymor. Mae'r criw wedi bod mewn cystadleuaeth codio ym Mangor cyn hanner tymor. Bu iddynt drafod am gael trefnu gig yn ystod 26/027 gan bobl fel Bwncath neu rywbeth tebyg i frwydr y bandiau. Mae Bethel hefyd yn chwilio am 1 aelod o staff arall erbyn y tymor newydd.

Rhiwlas - gwan iawn fu hanes aelodaeth yn Rhiwlas. 6 yn unig a gofrestrodd, a bu i'r clwb ddod i ben ar ôl y Nadolig oherwydd diffyg mynychiad. Er ceisio denu pobl ifanc i fynychu, ni lwyddwyd. Penderfynwyd y byddwn yn treialu am 4 wythnos hyd ddiwedd Medi yn y tymor Newydd I weld os bydd diddordeb.

Cytunwyd y buasai cynrychiolwyr o'r adran ieuenctid yn ymweld â B16 yn yr ysgolion i hyrwyddo'r clybiau, cyn i'r flwyddyn ddod i ben. Soniwyd hefyd, efallai y buasai'r clybiau yn gallu gwneud gweithgaredd i godi arian tuag at Bwyllgor Apêl leol eisteddfod yr Urdd 2028.

Cofnodion Cyfarfod y 2ail Fehefin 2026

Cafwyd y Cofnodion yn gywir a nodwyd fod yr holl benderfyniadau wedi eu gwneud yn unfryd gan Y Cyngor:

Idris Thomas (1)

Elen George (2)

Materion o'r Cofnodion

Twll ffordd Pen y Golwg - Derbyniwyd llythyr yn nodi fod y Cyngor wedi bod yn ymweld â'r safle, ond and yw'r twll ddigon tyfwn i wneud dim, ar hyn o bryd.

Arwyneb ffordd Tai Caradog, Marian Terrace a Batri - Derbyniwyd llythyr yn nodi fod swyddog wedi ymweld â'r safle. Pwrpas y Gwaith oed selio'r arwyneb er mwyn nadu dŵr rhag mynd mewn i strwythur y ffordd a difrodi'r ail-wynebu a wnaethpwyd yn 2007. Dywedodd y swyddog yn Dilyn ei ymweliad fod y Gwaith wedi ei gyflawni ei bwrpas a does dim achos i wneud dim byd ychwanegol i'r broses selio ar y safle.

Llwybr Beicio Bethel I Gaernarfon - Mae cynllun i hyn ar wait hers dipyn o flynyddoedd, ac mae Cyngor Gwynedd dal yn ymwybodol o hynny. Yn anffodus nid oes cyllideb ar gael ar hyn o bryd, ond mae'r Cyngor yn trio eu gorau i gyflawni cynlluniau ar sail sydd wedi ei optimeiddio'r cyllid a chyfleoedd sydd ar gael. Gobeithio y gellir cael cyllid yn y dyfodol.

Grant Gwynedd Ni

Yn dilyn sawl sgwrs, bu I Sasha fynd ati i chwilio am brisiau gan gwmnïau i weld beth fuasai orau, gan fod amser yn brin cyn y dyddiad cau. Falch oedd Y cyngor o glywed fod cais wedi mynd i mewn am grant o £6513 i dderbyn:

4 x Bwrdd Gwybodaeth Bren I'r gymuned i gefnogi ymgyrch cadw enwau

3 x Mainc

Bwrdd Rhyngweithiol a stand I Ystafell Gymunedol Penisa'r-waun.

Diolch yn fawr I Sasha am wneud hyn ar ein rhan.

Cynllunio

Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd:

C26/0380/18/LL - Fferm, Tan y Dderwen, Llanddeiniolen

Cais i godi sied amaethyddol ar gyfer storio offer a pheiriannau - Dim Gwrthwynebiad

Llwybrau

Eglwys Llanddeiniolen - Roedd cwyn wedi bod fod llwybr angen ei dorri a bod y tar mhac yn beryg., ond gan fod y llwybr yma yn fynwent yr Eglwys, yr Eglwys sydd yn gyfrifol. Mae'r llwybr tu hwnt i'r bont Newydd wedi ei dorri.

Adolygu Polisiau

Rheoliadau Ariannol - Roedd y clerc wedi gyrru'r ddogfen i bawb eu darllen a nodi os oedd rhywbeth angen ei drafod a'i adolygu. Nododd y Cadeirydd, fod popeth oedd yn y rheoliadau yn cael eu dilyn. Trafodwyd symiau uchafswm, a phenderfynwyd eu gadael fel yr oeddynt ar hyn o bryd. Cytunwyd yn unfrydol fod y rheoliadau yn ddyledus.

Cofrestr rheoli risg - Eto gyrrwyd y ddogfen yma allan i bawb eu darllen ac ystyried os oedd y gofrestr yn bwrpasol. Arwahanu I 1 tapo, penderfynwyd yn gytûn fod y gofrestr yn rheoli'r risg yn dda.

Awdit

Nododd y clerc ei bod wedi hel popeth at ei gilydd i yrru i Awdit Cymru yng Nghaerdydd. Ond ni allai yrru tan ar ôl y 15fed o Orffennaf, gan mai dyna pryd mae'r amser i 'r cyhoedd archwilio'r llyfrau yn dod i ben. Rhoddwyd popeth mewn ffeil wedi ei nodi yn glir.

Cadarnhau Taliadau

Diolch i'r clerc am yrru'r rhestr taliadau am y mis. Derbyniwyd y taliadau yn gywir, ac arwyddwyd gan y Cadeirydd.

O Gwmpas y Bwrdd

Pont Brynrefail - Eleni, mae bwriad i ddathlu 200 mlynedd ers adeiladu'r bont ym Mhenllyn. Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal ar Fedi 26ain I drefnu.